# Y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol

**HWLG(3)-13-10-p2: 8 Gorffennaf 2010**

## Cynnydd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru o ran Gweithredu Adroddiad Pennington

### Yr Ymateb i Argymhellion Ymchwiliad Pennington i'r Achosion o E. Coli

### Cefndir

1. Cyhoeddwyd adroddiad yr Ymchwiliad E. coli ar 19 Mawrth 2009.

2. Gwnaed datganiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol gan y Prif Weinidog blaenorol ar 24 Mawrth 2009 yn croesawu'r adroddiad, ac ar 7 Gorffennaf 2009 yn disgrifio'r gwaith a oedd ar droed.

3. Ym marn Llywodraeth y Cynulliad:

dylid gosod y cyfrifoldeb am weithredu fel sy'n ofynnol o ganlyniad i argymhellion yr adroddiad ar y sefydliadau neu'r swyddogion y cyfeirir yr argymhellion atynt, a dylid ei wneud yn rhan o'u busnes rheolaidd;

dylai Llywodraeth y Cynulliad dderbyn y cyfrifoldeb am ei weithredoedd ei hunan ond ni ddylai ymgymryd â swyddogaeth reoli ganolog. Cefnogid y farn honno gan y Prif Weinidog blaenorol.

4. Dyfynnir argymhellion yr Ymchwiliad yn Atodiad A. Mae pedwar o'r argymhellion yn ymwneud â gweithredu gan Lywodraeth y Cynulliad.

### Argymhellion sy'n gofyn am weithredu gan Lywodraeth y Cynulliad

5. Mae Argymhelliad 3 yn datgan:

"Dylid clustnodi adnoddau ychwanegol i sicrhau bod pob busnes bwyd yng Nghymru'n deall ac yn defnyddio'r dull DPPhRhC o weithredu, a sicrhau bod ganddynt system effeithiol a chofnodedig ar gyfer rheoli diogelwch bwyd, sy'n rhan annatod o'u diwylliant a'u harferion gweithio."

6. Nid yw'r argymhelliad hwn yn pennu o ble y dylid darparu'r adnoddau ychwanegol, er bod y testun ategol yn mynd ymlaen i ddweud:

Rwyf am adael i Lywodraeth Cynulliad Cymru, ar y cyd ag eraill, benderfynu beth sy'n rhesymol o ran adnoddau ychwanego, a pha un yw'r ffordd orau o ddefnyddio adnoddau er mwyn cyrraedd y canlyniad a ddymunir.

7. O 2007-08 ymlaen, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi darparu cyfran o'r swm blynyddol ychwanegol o £180,000 i bob un o'r 22 awdurdod lleol. Disgwyliwn iddynt ddefnyddio'r cyllid hwnnw i'w cynorthwyo i orfodi'r ddeddfwriaeth Ewropeaidd ar hylendid bwyd.

8. Wrth benderfynu ar y setliad llywodraeth leol, bydd Llywodraeth y Cynulliad yn cydweithio â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i asesu'r blaenoriaethau a'r pwysau a ddisgwylir yn y flwyddyn ariannol ddilynol. Sicrhaodd hynny gynnydd o 2.1 y cant (£81 miliwn) o gyllid anneilltuedig ar gyfer 2010 -11, i alluogi awdurdodau lleol i gyflawni eu holl swyddogaethau, gan gynnwys archwilio a monitro mangreoedd bwyd. Cytunodd CLlLC fod hwnnw'n setliad teg ond heriol.

9. Mae Prif Weithredwr CLlLC wedi ysgrifennu at y Prif Weinidog ar 24 Mehefin 2010, gan amgáu Adroddiad Pwyllgor Cydgysylltu CLlLC ynglŷn â'r cyllid a fydd yn ofynnol gan awdurdodau lleol, i'w cynorthwyo i weithredu argymhellion Ymchwiliad Pennington. Mae'r ohebiaeth honno dan ystyriaeth gan swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru.

10. Mae Argymhelliad 16 yn datgan:

"Rhaid i fusnesau sy'n contractio i gyflenwi bwydydd risg uchel, megis cigoedd amrwd a chigoedd wedi'u coginio, i gyrff yn y sector cyhoeddus, fod yn destun archwiliadau hylendid bwyd annibynnol."

11. Rhoddir sylw i'r argymhelliad hwn gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) a CLlLC, ar y cyd â Gwerth Cymru. Mae Gwerth Cymru yn parhau i reoli'r Contract Archwilio Hylendid Bwyd a osodwyd gan Gadwyn Gyflenwi'r GIG gyda chwmni Support, Training and Services ccc (STS) ym Medi 2009. Anogir pob sefydliad i ddefnyddio hwn, er mwyn sicrhau bod eu cyflenwyr bwyd - yn enwedig cyflenwyr cynhyrchion risg uchel - yn destun archwiliadau.

12. Yn ychwanegol, mae Gwerth Cymru, ar y cyd â rhanddeiliaid ledled Cymru, CLlLC, yr Asiantaeth Safonau Bwyd ac adrannau priodol LlCC wedi paratoi 'fframwaith' o ganllawiau ynglŷn â bwyd. Mae hyn yn cynnwys y cyhoeddiad 'Prynu Bwyd Diogel ar gyfer Byrddau'r Cyhoedd: Dull Newydd o Gaffael Bwyd ar gyfer Cymru', sy'n pennu'r hyn a ddisgwylir gan sefydliadau a chyflenwyr bwyd, er mwyn sicrhau y caffaelir bwyd mewn ffordd ddiogel.

13. Mae Argymhelliad 18 yn datgan:

"Dylai fod gan bob awdurdod lleol raglen o archwiliadau er mwyn sicrhau bod gan bob ysgol doiledau a chyfleusterau golchi dwylo

digonol."

14. Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau a fu'n arwain y gwaith o ddatblygu canllawiau, gyda chymorth gan weithwyr iechyd proffesiynol o Adran Iechyd y Cyhoedd a'r Proffesiynau Iechyd a grŵp llywio o randdeiliaid.

15. Ym Mai 2010 yn Eisteddfod yr Urdd, gwnaed arolwg gan Lywodraeth y Cynulliad o ganfyddiad plant o'r toiledau yn eu hysgolion. Ysgogodd hynny 250 o ymatebion gan bobl ifanc. Bydd canlyniadau'r arolwg hwnnw yn ddefnyddiol fel enghreifftiau yn y ddogfen. Mae'r canllawiau "Toiledau Ysgol - Arferion Gorau ar Gyfer Ysgolion Cynradd ac Uwchradd" ar fin eu cwblhau, a chânt eu dosbarthu i randdeiliaid ar gyfer ymgynghori yn ystod yr haf hwn. Bydd yr adnodd hwn yn gymorth i oleuo proses archwiliadol yr awdurdodau lleol. Y canllawiau hyn fydd y drydedd ddogfen i'w chyhoeddi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn dilyn yr achosion o E. coli; y ddwy gynharaf oedd "Gwyliwch y Germau!" a "Dysgwch Wers i Germau " a gyhoeddwyd yn 2006.

16. Mae Argymhelliad 20 yn datgan:

"Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ystyried fy argymhellion, a monitro ac adrodd ar y cynnydd a wneir ynglŷn â'u cyflawni."

17. Mae'r argymhellion a'r gweithredu sy'n angenrheidiol yn faterion a roddir yn nwylo'r sefydliadau a nodir. Bydd y Prif Swyddog Meddygol (PSM) yn cydgrynhoi adroddiadau cynnydd gan y sefydliadau hynny, ac yn eu cynnwys mewn diweddariad Gweinidogol blynyddol. Mae'r broses honno eisoes ar droed ar gyfer diweddariad 2010, gyda golwg ar ddarparu adborth mewn Cyfarfod Llawn o'r Cynulliad cyn gynted ag y bo modd.

Mehefin 2010""

# Atodiad A

### Argymhellion yr Ymchwiliad Cyhoeddus i'r Achosion o "E. Coli" yn NE Cymru yn 2005

1. Rhaid i bob busnes bwyd sicrhau y gall ei systemau a'i weithdrefnau atal achosion o halogi neu groeshalogi bwyd ag "E. coli "O157.

2. Rhaid i fusnesau bwyd fynd i'r afael â dulliau o reoli diogelwch bwyd a seilir yn eglur iawn ar saith egwyddor allweddol y dull Dadansoddi Peryglon a Phwynt Rheoli Critigol (DPPhRhC), gan sicrhau bod yr egwyddorion hynny'n rhan greiddiol o'r modd y maent yn rhedeg eu busnes.

3. Dylid clustnodi adnoddau ychwanegol i sicrhau bod pob busnes bwyd yng Nghymru'n deall ac yn defnyddio'r dull DPPhRhC o weithredu, a sicrhau bod ganddynt system effeithiol a chofnodedig ar gyfer rheoli diogelwch bwyd, sy'n rhan annatod o'u diwylliant a'u harferion gweithio.

4. Dylai egwyddorion sylfaenol y Cynllun Trwyddedu Cigyddion, a gyflwynwyd i ymateb i'r achosion o "E. coli "O157 a ddigwyddodd yn 1996, arwain y mesurau hylendid bwyd mewn busnesau sy'n prosesu cig amrwd a bwydydd parod nad ydynt wedi'u pacio.

5. Dylai'r Asiantaeth Safonau Bwyd adolygu ei chanllawiau cyfredol, a chymryd camau rhagweithiol i baratoi canllawiau newydd pan ganfyddir anghenion.

6. Dylai'r Asiantaeth Safonau Bwyd ddatrys y dryswch sy'n bodoli ymysg gweithredwyr busnesau bwyd ynghylch pa doddiant neu doddiannau I'w defnyddio i atal croeshalogi o arwynebau ac offer.

7. Dylai cyrff rheoleiddio a gorfodi gadw dan arolwg yn gyson yr opsiwn o weithredu "â llaw ysgafn" wrth orfodi busnesau bwyd unigol i gydymffurfio.

8. Rhaid seilio arolygiad o gynlluniau DPPhRhC ar waith archwiliadol.

9. Dylid datblygu darpariaeth o hyfforddiant a fydd yn sicrhau bod yr wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol gan bob swyddog yng Nghymru sy'n gwirio cynlluniau DPPhRhC a chynlluniau a seiliwyd ar DPPhRhC, a chan y rhai sy'n gyfrifol am oruchwylio gwaith y swyddogion hynny.

10. Dylai Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd, wrth arolygu busnes, fynnu cael copi o gynllun rheoli diogelwch bwyd/ DPPhRhC y busnes, a dylid cadw'r copi hwnnw yn ffeil arolygu'r busnes.

11. Dylai fod yn arfer safonol cofnodi unrhyw faterion, pryderon neu broblemau posibl sy'n codi, naill ai trwy osod 'baner goch' ynghlwm wrth rai dogfennau penodol, neu gynnwys nodiadau yn y ffeil .

12. Dylai penderfyniadau ynglŷn â hyder yn nulliau busnes o reoli diogelwch bwyd fod yn seiliedig ar dystiolaeth.

13. Rhaid i bob arolygiad, cynradd neu eilaidd, fod yn arolygiad dirybudd onid oes amgylchiadau neu resymau penodol ac eithriadol y gellir eu cyfiawnhau, sy'n golygu bod ymweliad a drefnir ymlaen llaw yn angenrheidiol.

14. Rhaid i drafodaethau â chyflogeion fod yn rhan safonol o ymweliadau arolygu hylendid bwyd.

15. Dylai'r Asiantaeth Safonau Bwyd, yn rhan o'i Chynllun Archwilio neu fel atodiad iddo, ddatblygu dull o asesu'r modd yr ymgymerir ag arolygiadau hylendid bwyd gan awdurdodau lleol, gan gynnwys y modd yr asesir cynlluniau DPPhRhC a chynlluniau a seiliwyd ar DPPhRhC.

16. Rhaid i fusnesau sy'n contractio i gyflenwi bwydydd risg uchel, megis cigoedd amrwd a chigoedd wedi'u coginio, i gyrff yn y sector cyhoeddus, fod yn destun archwiliadau hylendid bwyd annibynnol.

17. Dylai fod gan bob sefydliad iechyd a sefydliad gofal system effeithiol ar gyfer cysylltu â phersonél allweddol, yn ystod a thu allan i oriau gwaith arferol, yn ogystal â system effeithiol ar gyfer dosbarthu gwybodaeth bwysig.

18. Dylai fod gan bob awdurdod lleol raglen o archwiliadau sy'n sicrhau bod gan bob ysgol doiledau a chyfleusterau golchi dwylo digonol.

19. Dylai pob awdurdod lleol yng Nghymru adolygu ei bolisïau, ei weithdrefnau a'i systemau gyferbyn â'r materion a godir gan yr adroddiad hwn.

20. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ystyried fy argymhellion, a monitro ac adrodd ar y cynnydd a wneir ynglŷn â'u cyflawni.

21. Dylid cynnal adolygiad sylweddol o waith gorfodi hylendid bwyd yng Nghymru, ymhen tua phum mlynedd ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn.

22. Dylai'r cyngor a'r canllawiau arferion da a gyhoeddir gan gyrff cyhoeddus fod yn ddarostyngedig i waith dilynol a/neu werthuso manylach.

23. Dylid dilysu'r dull 'Ailddigwyddiadau Tandem Nifer (VNTR) fel dull safonol ar gyfer profi a theipio E. coli O157.

24. Dylid ymchwilio i ddichonoldeb adnabod y gwartheg "gorarllwysol" ar ffermydd, fel dull posibl o leihau'r tebygolrwydd o ledaenu E. coli O157 i wartheg eraill.